

SCUDAMORE (TEULU).

Ar y cyntaf un o deuluoedd lleiaf y Mars oedd hwn, wedi ymsefydlu yn Ewias er y 12fed ganrif. Daeth dwy gangen o'r teulu, canghennau Holm Lacy a Kentchurch, i amlygrwydd yng nghwrs amser fel gwyr tiriog blaenllaw yn hanes modern Sir Henffordd. Ar un cyfnod daeth cangen Kentchurch i gyswllt clos â digwyddiadau yng Nghymru. Yn y 13eg ganrif daethant i feddu tir yn arglwyddiaeth Abergafenni trwy briodas Syr ALAN SCUDAMORE â merch ac unig aeres arglwydd Troy, sydd heb fod nepell o Drefynwy. Bedair cenhedlaeth yn ddiweddarach priododd gor-wyr Syr Alan ag ALICE, un o ferched **Owain Glyndwr**.

Pan dorodd rhyfel Glyndwr allan yr oedd Syr JOHN SCUDAMORE I, mab-yng-nghyfraith **Owain**, yng ngwasanaeth y brenin; yn y flwyddyn 1403 ef, yn wir, oedd ceidwad castell Carreg Cennen ar ran y brenin ac am gyfnod gwrthsafodd ymosodiadau **Owain**. Pa beth bynnag oedd safbwynt Syr John yn ddiweddarach tuag at yr arweinydd Cymreig, rhoes un aelod o'i deulu, sef PHILIP SCUDAMORE, Troy, ei fywyd i lawr dros **Owain**. Y mae hefyd draddodiad cryf - y traddodiad mwyaf credadwy, efallai, o'r rheini sydd yn delio â blynyddoedd olaf **Owain** - i **Owain** dreulio ei ddyddiau olaf ar un o stadau Scudamore, sef Monnington Straddel yn y ' Golden Valley.'

Enillodd Syr JOHN SCUDAMORE II, mab ac aer Syr John Scudamore I, enwogrwydd ar ei gyfrifoldeb ei hun fel un o bleidwyr mwyaf cadarn a chyson achos y Lancastrïad yng Nghymru yn ystod Rhyfel y Rhosynnau. Yr oedd gyda **Siaspar Tudur** ym mrwydr Mortimer's Cross yn 1461, ac er iddo lwyddo i ddianc a chynnal castell Penfro am gyfnod ar ran **Siaspar**, yr oedd nifer o'i berthnasau agos, a'i fab hynaf HENRY, yn eu plith, ymhlith y rhai y torrwyd eu pennau i ffwrdd ar ôl y frwydr. Yr oedd yr ail Syr John, fel **Siaspar Tudur**, ymhlith y rhai na chynigiwyd iddynt y pardwn cyffredinol gan Edward IV, ac er iddo gael addewid na chollai mo'i eiddo pan drosglwyddodd gastell Penfro, fe gymerwyd ei stadau oddi arno yn fforffed maes o law. Priododd â Joan, merch John Parry o Boston yn Ewias, a phriododd eu mab James â Mawd, merch **Gruffydd ap Nicolas** o'r Drenewydd, Dinefwr. Dychwelwyd Kentchurch a thiroedd eraill i etifeddion y briodas hon yn ddiweddarach.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

Bulletin of the Board of Celtic Studies, iv, 928

J. E. Lloyd, *Owen Glendower / Owen Glyn Dwr* (1931)

Howell T. Evans, *Wales and the Wars of the Roses* (Cambridge 1915)

Archaeologia Cambrensis, V, xvii, 157

Duncomb, *The Heraldry of Herefordshire being a collection of the armorial bearings of families which have been seated in the county at various periods down to the present time*

Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarendieux and Norroy, two kings at arms(Llandovery 1846)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804773

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrefydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Pierce, T. J., (1953). SCUDAMORE (TEULU).. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-SCUD-AMO-1150>

frannu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government